COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 17 TACHWEDD 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | DK Edwards |
| J Gebbie | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| M Hughes | A Hussain | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| G Thomas | T Thomas | MC Voisey | LM Walters |
| KJ Watts | DBF White | A Williams | AJ Williams |
| HM Williams | JE Williams | RE Young | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, T Giffard, RM James, SG Smith, RME Stirman, JH Tildesley MBE, E Venables, SR Vidal a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

596. DATGAN DIDDORDEB

Dim.

597. DERBYN COFNODION

CYTUNWYD: Bod Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a ddyddiwyd 21 Hydref 2021, yn cael eu derbyn fel cofnod gwir a chywir..

598. DERBYN CYHOEDDIADAU ODDI WRTH:

Y Maer

Mae’r mis diwethaf wedi bod yn gymharol dawel, ond rwy’n siŵr nad felly y bydd pethau yn ystod yr wythnosau nesaf yn arwain at y Nadolig. Peidiwch anghofio mai’r wythnos hon yw eich cyfle olaf i sicrhau tocyn ar gyfer y noson Codi Arian i Elusennau sy’n digwydd ar nos Sadwrn 27 Tachwedd yng Ngwesty Heronston gyda bwffe, hypnotydd llwyfan comedi a cherddoriaeth gan Lee Jukes o Bridge FM ac mae croeso i bawb.

Ymhellach, mae raffl Nadolig fawreddog yn cael ei chynnal gyda gwobr gyntaf o £200 mewn arian parod ac o gwmpas 20 gwobr arall a'r rhifau'n cael eu tynnu ar ddydd Mercher 15 Rhagfyr 2021 yn dilyn cyfarfod nesaf y Cyngor. Os hoffech brynu tocyn am £2.00 yr un, anfonwch neges er mwyn gallu gwneud trefniadau i sicrhau eich tocynnau. Mae holl elw'r digwyddiadau yma'n mynd at Lads & Dads a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont.

Yn ystod y mis diwethaf, cefais y pleser o dderbyn gwahoddiad i agoriad Academi STEAM Coleg Pen-y-bont ar gampws Pencoed. Ystyr hyn yw gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, y celfyddydau a mathemateg ac roedd gweld yr adnoddau yma'n cael eu cynnig i fyfyrwyr o fewn yr adrannau yma'n arbennig a llongyfarchiadau i Goleg Pen-y-bont am ddod â'r fath adnodd ardderchog i'r fwrdeistref sirol.

Ar ddiwedd mis Hydref, agorais Ffair Lyfrau Clwb Llewod Pen-y-bont yng Nghanolfan Gymunedol Westward a phrynu llwyth sylweddol o lyfrau. Mae'r Llewod wedi codi dros £180,000 ers i hyn ddechrau yn 1995 ac roedd hi'n braf clywed am y bartneriaeth y maent bellach wedi'i ffurfio gyda phwyllgor rheoli gwirfoddol Canolfan Gymunedol Westward gyda chymorth abl y Cynghorydd David White.

Yn dilyn hyn, cefais wahoddiad i agoriad y gwasanaeth milfeddygol symudol cyntaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, am wn i, yn Abercynffig. Sefydlwyd Mobivet mewn hen siop ddodrefn sydd wedi'i thrawsnewid i fod yn syrjeri filfeddygol gydag offer cystal ag unrhyw ysbyty. Mae hwn yn wasanaeth sydd i'w groesawu'n fawr iawn, ac ar gael 24 /7 ar gyfer galwadau cartref ac a fydd yn bendant o ddefnydd i bobl sy'n ei chael hi'n anodd teithio at y milfeddyg neu sy'n dymuno i'w hanifail anwes gael ei drin yn hwylus yn y cartref.

Yr wythnos ddiwethaf, roeddwn i'n falch o dderbyn gwahoddiad i berfformiad awyr agored gan Ysgol Gyfun Brynteg yng nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yng nghwmni'r Cynghorydd Dhanisha Patel. Perfformiwyd eu fersiwn fer nhw eu hunain o Hansel & Gretel ac roedd hi'n braf gweld y grŵp blwyddyn gyfan yno hefyd yn canu yn ystod y perfformiad gyda thyrfa sylweddol o bobl yn gwylio hefyd. Byddai'n braf gweld mwy o ddigwyddiadau o'r fath yng nghanol y dref.

Yn ystod yr wythnos, ymwelais â Choed Tremains gyda'r Arweinydd a'r Cynghorydd Stuart Baldwin i longyfarch Ceidwaid Coed Tremains ar sicrhau gwobr y Faner Werdd am eu gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn diogelu a gwella'r goedwig hynafol hon sydd â choed yn hŷn na 400 mlwydd oed a hynny yng nghanol Bracla.

Ar Sul y Cofio cefais y fraint a'r anrhydedd o gael mynychu'r orymdaith yng nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a gosod torch ar ran pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y tywydd yn braf ac ymysg y llu o gyn-filwyr a phobl yn y gwasanaethau a oedd yn gorymdeithio, roedd grŵp bychan o bobl yno'n gwisgo'u hetiau oren. Cynrychiolaeth o'r Lads & Dads, a ffurfiwyd ychydig dros 2 flynedd yn ôl, oedd y rhain. Gosodwyd torchau pabi mewn gwasanaethau ledled y Fwrdeistref Sirol gan gyd-gynghorwyr, felly diolch o galon i bawb a gymerodd ran ar y diwrnod.

Yn olaf, mae enwebiadau nawr ar agor ar gyfer y Gwobrau Dinasyddiaeth y Maer ac mae ffurflenni cais er mwyn gallu enwebu unrhyw un o fewn y gymuned ar gael ar wefan CBSP.

Nawr, dyma gyhoeddi rhai newidiadau i gyfarfodydd Pwyllgor:

Bydd newid i'r dyddiadau canlynol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn unol ag amseriad setliad cyllideb Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Cytunwyd y canlynol gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau perthnasol:

SOSC 1 – newid o 8 Rhagfyr i 20 Ionawr am 9.30 y bore;
SOSC 2 – newid o 13 Rhagfyr i 21 Ionawr am 9.30 y bore;
SOSC 3 – newid o 16 Rhagfyr i 24 Ionawr am 9.30 y bore;

Bydd rhaid canslo cyfarfod y SOSC 1 ar 17 Ionawr er mwyn gwneud lle i'r uchod a phwysau gwaith ehangach o fewn y tîm Gwasanaethau Democrataidd.

Bydd angen trefnu cyfarfodydd pellach o'r canlynol, eto yn unol â'r Datganiad Ariannol Tymor Canolig (MTFS):

COSC 19 Ionawr am 9.30 y bore
COSC 1 Chwefror am 9.30 y bore (i dderbyn Argymhellion ar Gynigion y Gyllideb / Datganiad Ariannol Tymor Canolig o Graffu a BREP).

Bydd aildrefnu dyddiadau'r cyfarfodydd uchod yn golygu y bydd angen symud y canlynol:

Pwyllgor Datblygu Rheolaeth dyddiedig 20 Ionawr i 27 Ionawr 2022
Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio dyddiedig 27 Ionawr i 28 Ionawr 2022.

Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau yma hefyd wedi cytuno i aildrefnu'r cyfarfodydd yma.

Awgrymwyd newid yn aelodaeth y Pwyllgor Llywdraethiant ac Archwilio, gyda'r Gynghrair Annibynnol yn dymuno tynnu'r Cynghorydd Elaine Venables i ffwrdd a chael y Cynghorydd Mike Clarke yn ei lle. Nid yw hyn yn effeithio ar y cydbwysedd gwleidyddol yn y Pwyllgor hwn nac unrhyw un o bwyllgorau eraill y Cyngor.

Y Dirprwy Arweinydd

Mae cynlluniau ar gyfer safle cyflogaeth strategol ym Mrocastell wedi symud ymlaen yn dilyn cwblhau gwaith sylweddol ar yr isadeiledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £10 miliwn i'r safle 116-erw, sydd â hawl cynllunio amlinell ar gyfer gofod llawr 770,000 troedfedd sgwâr.

Mae'r ffyrdd a'r gwasanaethau allweddol bellach yn eu lle ac yn gallu gwasanaethu hyd at naw plot ar gyfer datblygu busnesau modern i helpu tyfiant economaidd a chreu swyddi.

Bwriedir llwybr teithio gweithredol ar gyfer y gwanwyn, eto wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae ymholiadau eisoes wedi'u derbyn oddi wrth amrywiol ddatblygwyr eiddo a pherchnogion preswyl.

Dyma newyddion ardderchog ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, a hyderaf y bydd hyn yn arwain at greu llawer o swyddi newydd.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill ynglŷn â beth allai fod un un o'r prosiectau isadeiledd priffyrdd unigol mwyaf i'w gyflwyno ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhwng nawr a Dydd Sul 30 Ionawr y flwyddyn nesaf, rydym yn gofyn am farn pobl am y cynlluniau £17m uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r problemau traffig ym Mhencoed.

Bwriad y cynigion yma yw lleddfu'r problemau gyda thagfeydd, cynyddu diogelwch a chyflwyno gwelliannau newydd i drigolion a busnesau fel ei gilydd drwy wahanu'r heol oddi wrth y rheilffordd.

O'u caniatáu, bydd y cynlluniau'n galluogi cau croesfan reilffordd wastad Pencoed yn y pen draw, drwy ailadeiladu pont ffordd Penprysg er mwyn creu lle ar gyfer traffig dwyffordd, a chreu pont deithio ddiogel, weithredol, newydd sbon dros y rheilffordd ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Bydd hyn wedyn yn galluogi'r posibilrwydd ar gyfer datblygu tir i'r gorllewin o'r groesfan wastad gyfredol yn ogystal â galluogi buddsoddiad newydd a chyflwyno adnoddau.

Rydym yn cynnal nifer o sesiynau galw-i-mewn lle gall aelodau'r cyhoedd ddysgu a holi mwy o gwestiynau, ac mae'r holiadur ymgynghori ar gael mewn sawl ffurf wahanol.

Ceir manylion llawn am y cynigion cyffrous yma ar wefan y cyngor.

<u>Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Mae'r wythnos hon yn Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2021, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymuno â sefydliadau eraill ledled Cymru fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol.

O dan y thema 'Diogelu ein Cymunedau', cynhelir nifer o sesiynau rhithiol yn amrywio o sesiynau hyfforddi ar gyfer pobl broffesiynol, dadleuon cyngor ieuenctid, gweithdai ar gyfer y cyhoedd, digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a llawer mwy.

Bydd bob sesiwn yn trafod amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc ac oedolion yn cynnwys trais yn y cartref, iechyd meddwl, atal hunanladdiad, trais rhywiol ac ecsbloetio plant.

Mae ein cymunedau wedi wynebu nifer o anawsterau yn ystod y pandemig Covid-19, ac rydym yn annog trigolion i fanteisio ar y digwyddiadau rhithiol yma er mwyn dysgu mwy am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael.

Ceir manylion llawn ar wefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

<u>Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant</u>

Hoffwn gyfeirio'n fras at ddau beth. Yn gyntaf, dylai aelodau yn ymwybodol fod cryn alw o hyd am ein gwasanaeth opsiynau tai o ganlyniad i'r pandemig Covid.

Yn ymarferol, mae hyn wedi arwain at nifer sylweddol uwch o geisiadau i'r gwasanaeth yn dod i law, gan arwain at effeithio ar yr amserlen ar gyfer prosesu'r ceisiadau a dod i benderfyniad amdanynt.

Er mwyn rhoi syniad ar y galw cyfredol, mae'r gwasanaeth yn derbyn tua 350 o geisiadau bob mis ar hyn o bryd.

Ymhellach, mae tua 40 cais ychwanegol ar gyfer y digartref, sy'n galw am adnoddau dwys, oherwydd eu natur gymhleth.

Er bod yr adran yn gwneud popeth o fewn ei gallu i reoli'r galw, mae'r cynnydd yn golygu bod y sefyllfa'n effeithio ar bethau eraill, ac rydym yn gwneud pob ymdrech i gefnogi'r gwasanaeth a rheoli disgwyliadau mewn modd effeithlon a gwir.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, hoffwn longyfarch y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir am ennill gwobrau Aur, Arian ac Efydd ym menter PawPrints 2021 yr RSPCA.

Cynlluniwyd y fenter i gydnabod llwyddiannau'r gwasanaethau cŵn strae, cynllunio wrth gefn, polisi tai, gweithgareddau trwyddedu anifeiliaid a lles cŵn mewn cenel, a chafodd y SRS eu cydnabod mewn tri chategori gwahanol – Cŵn Strae, Gweithgareddau Trwyddedu Anifeiliaid a Chŵn mewn Cenel.

Efallai y byddwch yn cofio bod y gwasanaeth hefyd wedi ennill gwobrau aur, arian ac efydd yn 2019, felly mae ailadrodd y gamp honno er gwaethaf heriau'r pandemig coronafeirws yn ystod y 18 mis diwethaf yn rhywbeth y dylent ymfalchïo'n fawr ynddo.

Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio

Cafwyd nifer o lwyddiannau o fewn ysgolion lleol yn ddiweddar yr hoffwn eu rhannu ag aelodau.

Ysgol Gynradd Pencoed yw'r drydedd ysgol yn Ne Cymru i dderbyn statws Ysgol Gyfeirio gan gwmni technoleg ar-lein.

Mae'r wobr, a gyflwynir i ysgolion a cholegau yn ogystal â rhanbarthau penodol, yn cydnabod y defnydd arbennig o dechnoleg addysg o fewn y dosbarth.

Ysgol Gynradd Afon-y-Felin wedyn yw'r ysgol gyntaf yn rhanbarth Cwm Taf i ennill Gwobr Aur Campws Cymraeg am eu hymrwymiad i'r iaith Gymraeg. Bydd yr Arweinydd a minnau'n ymweld â'r ysgol cyn hir i longyfarch yr athrawon a'r plant yn bersonol.

Mae llwyddiant yr ysgol yn mynd i fod yn destun eitem ar deledu cenedlaethol wedi i S4C dreulio'r prynhawn yn ffilmio gyda staff a disgyblion ar gyfer y rhaglen gylchgrawn nosweithiol, Heno.

Ym Maesteg, mae Ysgol Gynradd Plasnewydd wedi dod allan o fesurau arbennig wedi i arolygwyr Estyn gadarnhau bod yr ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers adnabod materion yr oedd angen eu gwella yn 2018.

Yn dilyn cefnogaeth ddwys gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chonsortiwm y De Canolog, mae Estyn wedi cadarnhau bod sylfaen eang bellach ar waith y gall yr ysgol seilio gwelliannau pellach arno. Bydd newyddion tebyg yn dilyn yn achos un o'n hysgolion eraill cyn hir.

Yn olaf, mae Melanie Treadwell, athrawes Ysgol Gynradd Coychurch wedi cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnwyd gan y Swyddfa Addysg Hinsawdd cyn cynhadledd COP26.

Roedd Melanie'n un o dri athro o'r DU a ddewiswyd i wneud cyflwyniad yn ymwneud ag arwain y ffordd ym maes Addysg Hinsawdd, a'r unig athrawes ysgol gynradd i wneud hynny. O ganlyniad, ymwelodd ITV Wales ag Ysgol Gynradd Coychurch yn ddiweddar i ffilmio ychydig o'r gwaith CCD sy'n digwydd yno.

Hyderaf y bydd yr aelodau'n barod i ymuno â mi wrth longyfarch bob un o'r uchod.

Y Prif Weithredwr

Efallai fod aelodau wedi gweld fod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i dewis fel un o bedair ardal yng Nghymru lle mae ffyrdd newydd, hyblyg o bleidleisio'n mynd i gael eu peilota. Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent yw'r lleill.

Llywodraeth Cymru sy'n trefnu'r treialon a byddant yn digwydd yr un pryd ag etholiadau llywodraeth leol sydd wedi'u bwriadu ar gyfer mis Mai'r flwyddyn nesaf.

Fe'u cynlluniwyd i ganfod ffyrdd o'i gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i bobl bleidleisio a byddant yn profi ffyrdd gwahanol o alluogi trigolion i fwrw pleidlais.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno ar fanylion pellach ynglŷn â beth y gallwn ddisgwyl gweld, felly dyma rannu rhai o'r syniadau gyda chi nawr.

Bydd dau gynllun peilot yn rhedeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar Ysgol Gyfun Cynffig.

O ddod â'r oed pleidleisio i lawr i 16 y llynedd, caiff gorsaf bleidleisio newydd ei chreu o fewn yr ysgol er mwyn i ddisgyblion cymwys allu bwrw'u pleidlais yn ystod y dyddiau'n arwain i fyny at y prif ddiwrnod pleidleisio.

Bydd yr ail gynllun yn canolbwyntio ar wardiau lle cafwyd cyfraddau isel o bobl yn pleidleisio gyda 20 o'r gorsafoedd pleidleisio cyfredol yn agor ar gyfer pleidleisio cynnar yn ystod yr wythnos yn arwain i fyny at yr etholiad.

Mae'r manylion i'w cadarnhau, ond mae disgwyl iddynt gael eu lleoli yn Nwyrain Bracla a Coychurch Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Gorllewin Bracla, Canol Gorllewin Bracla, Cornelly, Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr, St Brides Isaf ac Ynysawdre.

Ar yr un pryd, cynhelir ymgyrch hyrwyddo dan arweiniad LIC gyda'r bwriad o gynyddu nifer y bleidlais drwy ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyrchu pellach.

Caiff holl ganfyddiadau a'r dystiolaeth a gesglir yn sgil y cynlluniau peilot eu dadansoddi gan Lywodraeth Cymru ac yn y pen draw, byddant yn dylanwadu ar y modd y caiff etholiadau eu cynnal ledled Cymru yn y dyfodol.

Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd llawn i ystyr hyn i bleidleiswyr cymwys a sut y gallant gymryd rhan a chaiff manylion pellach eu darparu wrth i ni ddod yn agosach at yr etholiad.

599. <u>DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD</u>

Ymysg rhai o'r cynigion sy'n rhan o ymgynghoriad 'dylunio da' Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mae parcio aml-lawr modern yn Hillsboro Place, gwesty moethus ar lan y dŵr, tirlunio a phedestreiddio ar hyd Promenâd y Dwyrain, gwell trafnidiaeth gyhoeddus, ymestyn Stryd y Dociau a safleoedd cymunedol newydd.

Wedi'i drefnu yn unol â Siarter Dylunio CCD Cymru, mae'r ymgynghoriad yn gwahodd busnesau a thrigolion ym Mhorthcawl i fynegi barn am y cynigion naill ai ar-lein, neu drwy ymweld â sesiynau galw-i-mewn lle gallant weld byrddau arddangos a sgwrsio â swyddogion adfywio.

Bydd y sesiynau galw-i-mewn yn digwydd yn y Pafiliwn Mawr rhwng 9 y bore a 5 y prynhawn, Ddydd Mercher 24 Tachwedd, a 9 y bore tan 8 yr hwyr, Ddydd Iau 25 Tachwedd.

Yn dilyn hyn, caiff y byrddau arddangos eu gosod ar hysbysfyrddau yn Cosy Corner am dair wythnos, a bydd gwefan y Cyngor yn cynnwys manylion pellach ac arolwg byr i alluogi pobl i gynnig adborth pellach.

Rydym yn dal yn uchelgeisiol iawn o safbwynt y cynlluniau yma, ac rydym eisiau iddynt ddarparu adfywiad realistig, cynaliadwy ym Mhorthcawl.

Hyderaf y bydd Aelodau'n helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad pwysig hwn a hefyd yn annog pobl i gymryd rhan a dweud eu dweud.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau pa brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo er mwyn derbyn nawdd gan Gronfa Adfywiad Cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dyma raglfaenydd y Gronfa Cyfoeth ar y Cyd, a fydd yn cael ei lansio'r flwyddyn nesaf yn lle grant nawdd strwythurol y Gymuned Ewropeaidd.

Clustnodwyd cyfanswm o £46m ar gyfer prosiectau ledled Cymru, a bydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn derbyn £785,000 o hwn.

Bydd £213,000 yn mynd i Fenter Pen-y-bont ar Ogwr, menter sy'n helpu pobl sydd wedi bod ar ffyrlo neu sydd wedi bod yn economaidd anactif i ganfod swyddi newydd.

Clustnodir £200,000 ar gyfer The Life You Want, sy'n cefnogi pobl sydd eisiau datblygu a gwella'u sgiliau neu ymgymryd â hyfforddiant newydd er mwyn sicrhau swydd newydd a gwella eu bywydau.

Bydd Young Minds for Tomorrow yn derbyn £86,800 er mwyn annog mwy o ddisgyblion i ystyried gyrfaoedd ym maes gweithgynhyrchu a pheirianwaith, tra bod Elevate and Prosper Pen-y-bont yn elwa o £125,000 i gefnogi dechrau busnesau newydd.

Bwriad rhaglen yr Incubator for Ambitious Entrepreneurs yw helpu entrepreneriaid benywaidd i ddatblygu rhwydweithiau busnes cadarn a bydd yn derbyn £92,700.

Clustnodwyd £56,700 pellach ar gyfer Connecting Teachers with Industry, sy'n galluogi athrawon i annog disgyblion sy'n awyddus i ddilyn gyrfaoedd o fewn y sectorau creadigol, digidol, yr amgylchfyd a deunyddiau pellach a gweithgynhyrchu.

Bydd Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn elwa o gais pellach a gyflwynwyd gan Gyngor Torfaen ar ran y 10 awdurdod lleol sy'n cydweithio drwy Ranbarth Cyfalaf Caerdydd – prosiect Cysylltu, Ymwneud, Gwrando a Thrawsffurfio, a gynlluniwyd i ychwanegu gwerth i raglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr gyfredol y cyngor.

Dyma brosiectau gwerth chweil bob un a fydd yn cael effaith cadarnhaol ar fywydau pobl leol ac rwy'n croesawu buddsoddiad gan Lywodraeth y DU ar eu cyfer.

Fodd bynnag, mae'n fater gofid sylweddol o hyd nad Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i chynnwys ymysg y 100 o fannau blaenoriaeth ar gyfer cefnogaeth gan y Gronfa Cyfoeth ar y Cyd arfaethedig.

Cawsom ein cydnabod fel rhywle sydd â'r cymunedau tlotaf yng Nghymru, ac rwy'n cael fy hun, unwaith eto, yn gal war Lywodraeth y DU i ailystyried eu penderfyniad.

600. <u>CYFLWYNIAD GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL DE CYMRU A RHAGLEN GYFLWYNIADAU AR GYFER CYFARFODYDD Y CYNGOR I'R DYFODOL</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad uchod, gyda rhan ohono'n cyflwyno cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru oedd yn bresennol.

Cyflwynodd y Maer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Alun Michael a DCC Jenny Gilmer i siarad am waith yr heddlu yng nghyswllt 3 Uned Reoli sylfaenol a 7 Awdurdod Heddlu yn ardal De Cymru.

Dechreuodd ei gyflwyniad drwy egluro pa mor anodd fu'r 18 mis diwethaf i'r Heddlu yn sgil y pandemig Covid-19, sydd hefyd wedi effeithio ar sefydliadau mawr eraill, megis y Gwasanaeth Iechyd ac awdurdodol lleol megis CBSP. Roedd y sefyllfa'n dal i barhau, ychwanegodd.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, sicrhaodd fod Heddlu De Cymru wedi cadw ffocws clir ar eu blaenoriaethau, gyda chyflawni gwasanaethau a chefnogaeth leol yn dal i fod yn ganolog i'r Cynllun Cyflawni Heddlu a Throsedd, a gyflwynwyd i Gynghorwyr lleol yn flaenorol.

Roedd sefydliadau megis y GIG a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â'r heddlu ychwanegodd, wedi simsanu, gyda'r heddlu'n wynebu heriau anferth yn ystod y cyfnod hwn. Cadarnhaodd fod llai o droseddu wedi digwydd yn ystod y clo mawr cyntaf, ond wrth i gymdeithas ailagor, roedd lefelau wedi cynyddu unwaith eto i fod cymaint os nad yn fwy na'r lefelau blaenorol.

Byddai'r drafodaeth heddiw, eglurodd, yn edrych ar waith yr heddlu yn y gymuned, rôl PCSO's, ymateb i alwadau 999 ac 101, lefelau troseddu, trais yn erbyn menywod a diogelwch cymunedol. Roedd yn falch i allu dweud wrth y Cyngor, fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu 100 PCSO ychwanegol ledled Cymru, gyda 41 ohonynt yn gwasanaethu ardal De Cymru. Roedd timau cymunedol hefyd yn cefnogi'r Swyddogion yma, eglurodd Comisiynydd yr Heddlu.

Gyda'r cynnydd yn lefelau gwaith ac ar adegau, galw digynsail, roedd yr Heddlu wedi edrych ar ffyrdd y gellid cysylltu â nhw ar wahân i drwy ffonio 999 neu 101. Roeddent felly wedi ychwanegu dulliau cysylltu hefyd drwy e-bost a system gyfathrebu gymdeithasol unigol ar-lein newydd.

Eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod galwadau 999 at yr heddlu wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2021, h.y. 18,000 ond roedd y nifer bellach wedi disgyn ychydig. Ymatebwyd yn sydyn iawn i 99% o'r galwadau yma. Nid yw'r galwadau i rif 101 yn cael eu hystyried fel rhai brys, fodd bynnag, ymatebodd yr Heddlu i'r rhain cyn gynted â phosibl. O safbwynt yr ystadegau diweddaraf ar gyfer galwadau 101, ymatebwyd i 85% ohonynt cyn gynted â phosibl ar ôl eu derbyn.

Deliwyd â'r mwyafrif o alwadau ffôn gan yr Ystafell Reoli i ddechrau, gyda'r galwadau mwyaf brys yn derbyn ymateb sydyn drwy bresenoldeb yr heddlu'n ymweld â'r person oedd yn galw/eu lleoliad yn bersonol.

Yn ôl y disgwyl mae'n debyg, roedd lefelau troseddu wedi disgyn yn ystod y cyfnod pan gafwyd clo llawn, am nad oedd economi gyda'r nos a dim ond allfeydd manwerthu hanfodol oedd ar agor. Ond roedd gweithredoedd troseddol difrifol, megis er enghraifft, lefelau gwerthu cyffuriau yn dal i fod yn uchel. Yn wahanol i gred y mwyafrif hefyd, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, disgynnodd enghreifftiau o drais neu gamdriniaeth yn y cartref yn rhyfedd iawn. Fodd bynnag, roedd y niferoedd yma wedi dechrau cynyddu nawr i'r lefelau arferol ac yn uwch, yn yr un modd â chamdriniaeth plant, yn drist iawn. Yn yr un modd, wrth i'r economi gyda'r nos ailagor, cynyddu wnaeth enghreifftiau o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd i'r un lefel â chynt neu'n uwch na'r cyfnod cyn-Covid.

Roedd grwpiau'n cael eu cyflwyno hefyd, megis 'Drink less, Enjoy more' a hyfforddiant pellach ar gyfer staff Rheoli Drysau mewn llefydd oedd ar agor yn hwyr er mwyn cadw llygad ar ymwelwyr bregus a allai fod yn darged ar gyfer drwgweithredwyr.

Roedd yr Heddlu'n gweithio ar y cyd â'r diwydiant Lletygarwch a'r Timau Gorfodi Llywodraeth Leol, i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hatal a'u rhwystro rhag digwydd.

Pwysleisiodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y ffaith fod galwadau 999 yn rhoi pwysau mawr ar adnoddau'r Heddlu, yn enwedig ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Ychwanegodd na fu'n fwriad erioed i'r gwasanaeth 101 gael ei weithredu'n unig gan yr Heddlu, am iddo gael ei gyflwyno'n wreiddiol fel gwasanaeth ar y cyd gyda sefydliadau allweddol eraill, er enghraifft y Gwasanaeth Tân.

Eglurodd pe bai unrhyw Aelod yn dymuno ymweld â'r Ystafell Reoli ym mhencadlys yr Heddlu lle'r oedd y mwyafrif o alwadau'n cael eu derbyn, bod croeso iddynt wneud.

Aeth y DCC Gilmer ymlaen drwy gyflwyno ychydig wybodaeth yn ymwneud â thaclo trais yn erbyn menywod a merched drwy:

- Erlid troseddwyr yn weithredol ac os yn briodol, sicrhau eu bod yn cael eu cyhuddo, gan weithiau arwain at ddedfryd o garchar;
- Y fenter Safer Spaces – yn cynnwys adrodd yn ddienw i'r Heddlu a chyflwyno amgylchedd economi gyda'r nos fwy diogel (e.e. ymweld â staff mewn sefydliadau a sicrhau eu bod yn ymwybodol o sbeicio diodydd a gweithredoedd troseddol treisiol, ayb);
- Gwella ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu (yn cynnwys drwy fentrau pwysig megis Black Lives Matter);
- Tasglu Cymru Gyfan (sy'n bwydo Tasglu'r DU)

Aeth ymlaen wedyn i rannu ychydig wybodaeth gyda'r Aelodau am Ddiogelwch Cymunedol – gweithgareddau'r heddlu yn y gymdogaeth, sy'n targedu:

1. Partneriaeth a chyd-berthnasedd
2. Ail-alinio arweinyddiaeth i gynnig gwell cefnogaeth i'r heddlu yn y gymuned (e.e. drwy ddarparu mwy o PCSO's)
3. Ystyried datrys problemau ar y cyd gyda phartneriaid allweddol

Eglurodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd mai ef oedd un o'r bobl a gyflwynodd Bartneriaethau Diogelu'r Gymuned, fel rhan o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Cyflwynwyd hwn fel modd o gynnig cefnogaeth yn ystod y cyfnod cyni, ar adeg pan oedd sefydliadau cyhoeddus megis yr Heddlu, Tân ac awdurdodau lleol wedi'u gorfodi i wneud toriadau o ran cyllid a staffio.

Roedd Bwrdd Cymunedau Diogelach yn bodoli a oedd yn helpu i gydlynu cymunedau diogelach ledled pob un o'r 4 Awdurdod Heddlu yn Ne Cymru, oedd yn edrych i atal troseddu a niwed i bobl, er mwyn hybu diogelwch o fewn y gymuned.

Eglurodd fod nifer y PCSO's wedi lleihau yn ystod y 18 mis diwethaf, gan eu bod wedi'u secondio i helpu gyda gwaith hanfodol arall a oedd wedi cynyddu yn sgil Covid-19. Fodd bynnag, roedd y rhain yn dychwelyd i'w rôl flaenaf, gan eu bod yn cael eu hystyried yn allweddol am fod ganddynt ddealltwriaeth o faterion a phroblemau o fewn y cymunedau lleol yn yr ardaloedd yr oeddent yn eu gwasanaethau ac felly roedd ganddynt fantais o safbwynt ymwybyddiaeth ohonynt a'r camau angenrheidiol i fynd i'r afael â nhw. Roedd gan PCSO's berthynas allweddol hefyd ag Aelodau lleol yn yr ardaloedd yr oeddent yn eu gwasanaethu.

Wedyn, agorodd y Maer y drafodaeth gan ofyn i'r Aelodau os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ar gyfer y gwahoddedigion.

Holodd Aelod faint o amser oedd yr Heddlu'n treulio wrth batrolio canol trefi, yn nhermau cefnogi a gofalu am aelodau o'r cyhoedd, a oedd o bosib wedi bod mewn cweryl ac wedi cael anaf neu wedi'u canfod ar y stryd yn feddw, a ddylai fod wedi derbyn gofal gan y gwasanaeth ambiwlans a'u cymryd i'r ysbyty. Roedd hi'n ymwybodol mai dyma'r achos weithiau am fod yr Heddlu'n digwydd bod yn yr ardal, tra bod galw am ambiwlans yn aml yn cymryd cryn amser. Credai fod achosion o'r fath yn sicr o effeithio ar adnoddau'r heddlu.

Eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod hyn yn digwydd weithiau a bod y mater yn rhywbeth a drafodwyd gyda Llywodraeth Cymru oherwydd ei fod yn destun gofid. Roedd yn dipyn o gylch dieflig, ychwanegodd, gan fod y Gwasanaeth Iechyd yn ogystal â'r Heddlu dan bwysau difrifol, yn enwedig ers dechrau'r pandemig ac roedd angen nifer sylweddol o staff ac ambiwlansys fel help ychwanegol y tu allan i ysbytai a sefydliadau gwasanaeth gofal hanfodol eraill. Roedd yn sefyllfa anodd drwyddi draw, credai.

Ychwanegodd y DCC Gilmer, fod yr Heddlu fel arfer yn cyrraedd yn gynt nag ambiwlans i gynnig cefnogaeth i bobl yn y fath sefyllfaoedd y cyfeiriwyd atynt uchod, oherwydd eu bod wedi derbyn galwad 999 ac wedi ymateb ar frys. Gyda misoedd y gaeaf i ddod a chynnydd posibl mewn achosion Covid, teimlai y gallai'r sefyllfa gyfredol waethygu cyn gwella.

Cadarnhaodd Aelod y dywedwyd wrtho ar un adeg, mai dim ond un Swyddog Heddlu Lleol yn y Gymuned oedd yn bresennol 'ar y strydoedd' yng ngogledd a gorllewin y Fwrdeistref Sirol. Er ei fod yn ymwybodol o fodolaeth PCSO's mewn cymunedau lleol, teimlai nad oedd hyn yn ddigonol ac y dylid cynyddu'r nifer er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n fwy effeithiol.

Cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai'n ymchwilio i'r mater. Ychwanegodd er hynny, fod llawer o amser ac ymroddiad yr Heddlu wedi mynd ar ganolbwyntio ar ymateb yn weithredol i alwadau 999 neu 101 ac eraill ar ddigwyddiadau eraill, gan arwain at yr her o sicrhau bod Swyddogion ar gael i batrolio ardaloedd o fewn cymunedau llai.

Ychwanegodd DCC Gilmer, fod gwaith yr heddlu yn y gymuned ar ei fwyaf effeithiol wrth ymdrin â phroblemau unigol a godwyd gan etholwyr yr Heddlu, ac a gafodd eu trosglwyddo wedyn i'r PCSO's i ymdrin â nhw. Roedd y Llywodraeth Ganolog wedi cymeradwyo cynnydd mewn cefnogaeth i'r Heddlu ledled Cymru a Lloegr drwy gyflwyno 20,000 o Swyddogion ychwanegol. Fodd bynnag, byddai'r rhain yn derbyn hyfforddiant ar y dechrau ac yn cael eu tynnu o'u gwaith yn aml yn ystod blwyddyn gyntaf ac ail eu cyflogaeth, felly ni fyddent yn cael effaith llawn ar Dde Cymru am gyfnod sylweddol wedi hynny. Roedd recriwtio'n digwydd o hyd ychwanegodd. Dywedodd y DCC Gilmer ymhellach ei bod hi'n bwysicach gwybod beth i'w wneud a bod yn ymwybodol o faterion oedd angen eu datrys, na chael nifer o swyddogion heddlu allan ar y strydoedd.

Credai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei bod hi'n werth pwysleisio, hyd yn oed gyda'r 20,000 o Swyddogion ychwanegol y cyfeiriwyd atynt gan DCC Gilmer, roedd y nifer hwn yn dal yn is na'r lefel nôl yn 2010.

Mynegodd Aelod ofid ynglŷn â rhewi cyflog yr Heddlu yn ddiweddar. Credai hefyd y gallai cyfeirio'n uniongyrchol at 'drais yn y cartref yn erbyn menywod,' roi mwy o rym i ddrwgweithredwyr, gan ei fod mor benodol.

Teimlai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod y rhewi cyflogau a ddigwyddodd yn y sector cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn annheg. Pan fyddai ychydig newid yn y sefyllfa, dylid gwneud cynnig sylweddol yn nhermau cynnydd yn y ganran, ychwanegodd. Y broblem oedd, byddai'n rhaid i Awdurdod yr Heddlu wneud iawn am unrhyw godiadau cyflog pellach.

O safbwynt problem trais yn y cartref a chamdriniaeth, nid oedd hyn yn cyfeirio'n unig at gamdriniaeth gorfforol a thrais, ond hefyd enghreifftiau o reolaeth orfodol. Roedd yr Heddlu wedi bod yn ymwneud â rhaglen o'r enw DRIVE, a oedd yn cynnwys gwaith a oedd yn ceisio diwygio unigolion oedd yn tueddu ymddwyn yn dreisgar ayb. Roedd hyn wedi'i beilota ym Merthyr a Chaerdydd ac wedi profi i fod yn llwyddiannus. Dynion yn bennaf oedd yn rhan o'r peilot, cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Er nad oedd nawdd ar ôl bellach ar gyfer y fenter, profodd i fod mor llwyddiannus gan dorri ar y galw am adnoddau'r Heddlu i'r fath raddau nes ei fod wedi'i ail-gyflwyno yn achos 7 awdurdod lleol yng Nghymru yn 2020.

Cyfeiriodd Aelod at barcio a throseddau parcio gan yrwyr cerbydau. Roedd yn ymwybodol mai mater ar gyfer CBSP a'i Swyddogion Gorfodi oedd hwn. Fodd bynnag, holodd os oedd PCSO's neu Swyddogion yr Heddlu'n gweithredu'n ymarferol i atal problemau o'r fath.

Eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mai gwaith yr awdurdod lleol oedd hwn yn bennaf, er bod Swyddogion yr Heddlu yn ymyrryd yn achos gyrwyr oedd yn parcio'u cerbydau mewn mannau a allai achosi perygl i'r cyhoedd neu ddefnyddwyr cerbydau eraill. Fodd bynnag, roedd cyfle ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng y ddau Awdurdod er mwyn lleihau'r fath achosion, ychwanegodd.

Dywedodd Aelod na allai bwysleisio pwysigrwydd PCSO's yn y gymuned ddigon. Ofnai, serch hynny, pan fyddai'r unigolion yma'n cael eu hyfforddi a'u symud ymlaen efallai yn sgil dyrchafiad, y byddai hyn yn gadael bylchau o safbwynt sicrhau Swyddogion newydd i gymryd eu lle.

Sicrhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Cynghorydd y byddai llawer o fynd a dod ymysg y PCSO's petaent, er enghraifft, yn cael eu dyrchafu i fod yn Swyddogion Heddlu. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o'r Swyddogion yma'n parhau yn eu rôl ar sail boddhad swydd, e.e. yn gweithio yn ac yn cefnogi cymunedau, yn ogystal â dod i adnabod y trigolion sy'n byw yno.

Teimlai Aelod fod pwysau ar adnoddau'r heddlu wrth i berson gael ei arestio ym Mhorthcawl a bod y gefnogaeth ar gyfer yr arestio'n dod o Ben-y-bont. Yn ôl yn 2020 yn Llanilltud Fawr, cafodd pedwar gwasanaeth eu hadleoli mewn un adeilad, h.y. yr Heddlu, gwasanaeth Gwylwyr y Glannau, y Gwasanaeth Tân a'r gwasanaeth Ambiwlans. Mae gan Lanilltud Fawr 9,500 o etholwyr. Roedd swyddfeydd yr Heddlu, y gwasanaeth Tân ac Ambiwlans i gyd mewn cyflwr cymharol wael a chan Borthcawl 16,000 o drigolion. O ystyried hyn, holodd, a oedd modd gwneud yr un peth ag a wnaed yn Llanilltud Fawr ym Mhorthcawl.

Cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn y dyfodol gyda chefnogaeth sefydliadau partner, ym Mhorthcawl ac ym Maesteg.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr eitem hon i ben drwy ddiolch i gynrychiolwyr yr Heddlu am fynychu'r cyfarfod, am rannu gwybodaeth allweddol gyda'r Aelodau ac am ymateb i gwestiynau. Dymunai gofnodi ei ddiolch i Geraint White o'r Heddlu oedd yn gadael Pen-y-bont ar Ogwr yn dilyn dyrchafiad, am ei fod wedi darparu cefnogaeth arbennig i etholwyr yn ystod ei gyfnod yno.

CYTUNWYD: Bod adorddiad y Prif Weithredwr a chyflwyniad cynrychiolwyr Heddlu De Cymru'n cael eu nodi.

601. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL PEN-Y-BONT AR OGWR (CDLL) – CYTUNDEB CYFLWYNO DIWYGIEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad, gyda'r bwriad o gynnig arweiniad i'r Cyngor am yr angen i adolygu'r Cytundeb Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol (CCD); i geisio cymeradwyaeth i'r estyniad o Amserlen y CDLl ac i gyflwyno'r cynllun diwygiedig i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Eglurodd Arweinydd Tîm y Polisi Strategaeth Cynllunio fod Cytundeb Cyflwyno Diwygiedig yn rhan statudol o'r broses CDLl a'i fod yn ddull allweddol er mwyn creu cynlluniau defnydd tir yn fwy sydyn. Mae'n cynnwys y ddwy elfen ganlynol:

- Yr Amserlen – sy'n amlinellu'r modd y bydd y Cyngor yn rheoli'r rhaglen ar gyfer paratoi'r CDLl.
- Y Cynllun Ymwneud Cymunedol (CYC) – sy'n nodi pwy, pryd a sut y bydd y Cyngor yn ymgynghori ac yn ymwneud â rhanddeiliaid amrywiol, yn cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol.

Estyniad i amserlen y CDLl oedd pwnc yr adroddiad, eglurodd.

Ymgymerwyd ag ymgynghoriad cyhoeddus o Amserlen Ddrafft y CCD yn ystod mis Ebrill a Mai 2018 a chymeradwywyd y ddogfen gan y Cyngor i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru, a gymeradwyodd ddrafft terfynol cyntaf y CCD ar 25 Mehefin 2018.

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth bob Awdurdod Cynllunio Lleol y dylid addasu pob CCD er mwyn ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i amserlen y CDLl yng ngoleuni'r oedi a ddigwyddodd oherwydd y pandemig.

O ganlyniad, cymeradwyodd y Cyngor y CCD ar 16 Medi 2020, a gafodd ei gymeradwyo wedyn gan Lywodraeth Cymru ar 5 Hydref 2020.

Ers y dyddiad hwnnw, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi llunio Blaen Ddrafft o'r CDLl (BDdCDLl), a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet i'w drafod ar 18 Mai 2021. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am 8 wythnos rhwng 1 Mehefin a 27 Gorffennaf 2021.

Cafwyd oedi o safbwynt y datblygiad tuag at gam allweddol nesaf y CDLl newydd, cyflwyno'r BDdCDLl i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio, a dyma oedd sail y newidiadau angenrheidiol i'r CCD, fel y nodir yn rhan nesaf yr adroddiad.

Aeth Arweinydd Tîm y Polisi Strategaeth Cynllunio yn ei flaen drwy ddweud bod angen nawr i'r Cyngor lunio CCD newydd gyda LlC yn dilyn yr ymgynghoriad ar y BDdCDLl. Y rheswm am hyn oedd bod angen adolygu a mireinio sylfaen tystiolaeth gefnogol y CDLLl o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd gan ein cymunedau a rhanddeiliaid allweddol. O gymeradwyo'r Blaen Ddrafft i'w drafod roedd y Cyngor yn ymrwymo i'r cymunedau hynny. Hynny yw, byddai'r Awdurdod yn ystyried, yn ffurfio a chyhoeddi ymateb i bob un o'r sylwadau ar y BDdCDLl a dderbyniwyd. Roedd y Cyngor wedi derbyn dros 1,200 o sylwadau, a fu'n waith gweinyddol sylweddol.

Yn ogystal ag ymateb i sylwadau unigol, mae angen adolygu a mireinio sylfaen anghenion y CDLl yn sgil y wybodaeth newydd a ddaeth i law, o ganlyniad i newidiadau

yn y ddeddfwriaeth, diweddaru canllawiau cynllunio a chwblhau'r wybodaeth dechnegol gefnogol.

Nodwyd y llinynnau gwaith yma ym mharagraff 4.3 yr adroddiad gyda manylion pellach er budd y Cyngor, gan Arweinydd Tîm y Polisi Strategaeth Cynllunio.

Dangoswyd yr estyniad posib i'r Amserlen yn Nhabl 1 (paragraff 4.4 o'r adroddiad) gan ddangos bod angen i Cam 4, sef y cam y mae'r Cyngor wedi'i gyrraedd erbyn hyn, gael ei ymestyn tan Fehefin 2022 er mwyn galluogi cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru'r haf nesaf.

Cyn ei gyflwyno, gellir gwneud gwelliannau i'r BDdCDLl o ganlyniad i'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a chyn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor i geisio caniatâd i gyflwyno'r cynllun ar gyfer astudiaeth annibynnol gan y cyhoedd.

Yn olaf, cadarnhaodd y byddai Aelodau'n ymwybodol fod y CDLl cyfredol yn dirwyn i ben eleni, gan roi'r Cyngor mewn sefyllfa gynyddol anodd ac agored i heriau gan y diwydiant datblygu. Mae'n hollbwysig felly fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i fwrw ymlaen â'r adolygiadau statudol o'r CDLl.

Yr un mor bwysig, pwysleisiodd, oedd yr angen i sicrhau bod y cynllun yn gadarn ac yn addas i bwrpas a'i fod yn cael ei gefnogi gan yr holl dystiolaeth angenrheidiol. O ganlyniad, roedd angen amser ychwanegol ar yr adroddiad er mwyn trafod a lleihau'r potensial o heriau pellach o safbwynt proses y CDLl.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ac Arweinydd Tîm y Polisi Strategaeth Cynllunio i ambell gwestiwn gan Aelodau, cyn symud ymlaen:

<u>CYTUNWYD:</u>

(1) Bod y Cyngor yn cytuno ar y gwelliannau i'r amserlen ac yn rhoi caniatâd i Reolwr y Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu gyflwyno'r Cytundeb Cyflwyno diwygiedig (atodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad) i Lywodraeth Cymru.

(2) Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i Reolwr y Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu wneud unrhyw gywiriadau ffeithiol neu fân welliannau angenrheidiol i'r Cytundeb Cyflwyno.

602. <u>2022-23 SYLFAEN TRETH Y CYNGOR</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, er mwyn darparu manylion i'r Cyngor am Sylfaen treth y cyngor ac amcangyfrif o'r raddfa gasgluar gyfer 2022-23 i'w gymeradwyo.

Atgoffodd y Cyngor mai Sylfaen treth y cyngor yw'r mesur o gapasiti trethadwy cymharol ardaloedd gwahanol o fewn y Fwrdeistref Sirol ac sy'n cael ei gyfrif yn unol â'r rheolau rhagnodedig. Mae pob eiddo domestig yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i brisio gan y Swyddfa Brisio. Wedi iddynt gael eu prisio, caiff eiddo eu gosod o fewn naw band (Bandiau A i I). Caiff pob band ei luosogi gan ffactor penodol er mwyn cyrraedd yr hyn sy'n cyfateb i Fand D, fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad.

Yr amcangyfrif gros ar gyfer Sylfaen treth y cyngor ar gyfer 2022-23 yw 55967.70 eiddo sy'n cyfateb i Fand D a'r gyfradd gasglu amcangyfredig yw 97.5%. Felly, y sylfaen deth y cyngor net yw 54568.51. Mae'r gyfradd gasglu amcangyfredig wedi'i chadw ar 97.5%, er

mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd cyfredol yn ymwneud â'r pandemig Covid-19, y nifer uwch o drigolion sy'n wynebu caledu economaidd a chyfraddau casglu cyfredol.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid mai Llywodraeth Cymru sy'n darparu sylfaen treth y cyngor a chaiff ei defnyddio i gyfrif swm y Grant Cefnogi Refeniw sy'n cael ei dderbyn gan awdurdod lleol dan Setliad Refeniw Llywodraeth Leol. Er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, ni roddir ystyriaeth o ragdybiaethau'r cynghorau am gyfraddau casglu. O safbwynt dosbarthu'r GCF, ystyrir bod y cyfraddau casglu'n 100 y cant, beth bynnag fo'r symiau a gasglwyd.

Bydd elfen treth y cyngor o ofyniad cyllideb y Cyngor yn seiliedig ar sylfaen net treth y cyngor o 54568.51 ac er bod y Cyngor yn cyfrif y sylfaen dreth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn gyfan gwbl, darperir cyfrifon ar wahân ar gyfer pob cyngor tref a chymuned. Defnyddir y sylfaen treth y cyngor yma gan awdurdodau i gyfrif eu gofynion unigol.

Daeth â'i chyflwyniad i ben drwy gadarnhau bod cynghorau tref a chymuned yn seilio'u gofynion ar y sylfaen dreth ar gyfer bob ardal tref a chymuned a cheir manylion pellach yn Atodiad A o'r adroddiad.

CYTUNWYD: Bod y Cyngor:-

- Yn cymeradwyo sylfaen treth y cyngor a'r gyfradd gasglu ar gyfer 2022-23 fel y gwelir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad hwn.
- Yn cymeradwyo sylfeini treth ar gyfer yr ardaloedd cyngor tref a chymuned a nodir yn Atodiad A o'r adroddiad.

603. GWELLIANNAU I REOLAU GWEITHDREFN ARIANNOL (RHGA) O FEWN CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, gyda'r bwriad o geisio caniatâd y Cyngor i addasu'r Cyfansoddiad i gynnwys y Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig.

Eglurodd fod materion ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol fel y nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. Nid yw'r RhGA wedi'u hadolygu ers 2017, yn ystod yr amser hwnnw mae prosesau a gweithdrefnau ariannol newydd, a deddfwriaeth a chanllawiau newydd, wedi dod i rym, gan newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu.

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi'u hadolygu gan swyddogion, yn cynnwys rhai o'r adrannau cyllid, caffael, archwilio cyfreithiol a mewnol a nifer o newidiadau a wnaed i'w diweddaru i adlewyrchu newidiadau fel y rhai a amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 16 Tachwedd 2021, er mwyn cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ddiwygiedig.

Atodwyd copi o'r rheolau diwygiedig i'r adroddiad yn Atodiad 1 er gwybodaeth i'r Aelodau.

CYTUNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r gwelliant i'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol fel y nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

604. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Adroddodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheolaethol, AD a Pholisi Corfforaethol (a Swyddog Monitro), ar yr Adroddiadau Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ddau Adroddiad Gwybodaeth dan sylw, a gynhwyswyd yn yr adroddiad cysylltiedig.

CYTUNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad.

605. I DDERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL ODDI WRTH:

**Y Cynghorydd Tim Thomas i'r Dirprwy Arweinydd**

All y Dirprwy Arweinydd amlinellu dyraniad a defnydd y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) ar gyfer y flwyddyn ariannol hon?
**Ymateb**

**Beth yw Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn?**
Caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (DHP) eu talu o gyllideb gyfyngedig arian parod gyda'r bwriad o helpu pobl i dalu costau tai, fel arfer lle mae diffyg rhwng eu Budd-dal Tai (BT), neu elfen dai o Gredyd Cynhwysol (CC), a'u rhent. Dim ond os yw'r hawlydd yn hawlio HB, neu CC sydd â chostau tai tuag at atebolrwydd rhent y gellir dyfarnu. Gellir dod o hyd i'r ddeddfwriaeth wreiddiol yn ymwneud â TTD yn Rheoliadau Cymorth Ariannol yn ôl Disgresiwn 2001 (S1 001/1167).

Nid yw 'costau tai' yn cael eu diffinio yn y rheoliadau ac mae'r dull hwn yn bwrpasol ganiatáu disgresiwn eang ar gyfer dehongli. Yn gyffredinol, mae 'costau tai' fel arfer yn cyfeirio at atebolrwydd rhent, er y gellir defnyddio'r term yn fwy eang i gynnwys:

- rhent ymlaen llaw
- blaendaliadau rhent
- costau cyfandaliadau eraill sy'n gysylltiedig ag anghenion tai, megis costau symud

**Prosesu Cais TTD**

Wrth brosesu cais ar gyfer TTD, ystyrir:

cyfanswm yr incwm wythnosol neu fisol ar gyfer yr aelwyd
**tynnu**
costau byw rhesymol wythnosol neu fisol
**sy'n penderfynu**
y diffyg mewn incwm ar gyfer ystyried cyfraniad TTD

Ni allu gwerth parhaus taliad TTD fod yn fwy na gwerth elfen costau tai CC ar gyfer y rhai sy'n derbyn BT, y rhent cytundebol heb daliadau gwasanaeth anghymwys (gweler paragraff 5.1 isod) e.e. os mai'r rhent cytundebol yw £400 y mis, a'r £344 yw'r BT, felly uchafswm y TTD fyddai £56 y mis.

**Pa fath o ddiffygion all TTD wneud iawn amdanynt?**

Ymysg y diffygion all BT a CC TTD wneud iawn amdanynt (ond nid yn gyfyngedig felly) y mae:

- diffygion rhent er mwyn rhwystro digartrefedd tra bod yr awdurdod tai yn ystyried opsiynau gwahanol
- diffygion lle mae'r cap budd-daliadau'n weithredol (mae'r cap budd-daliadau'n cyfyngu ar yr incwm budd-dal allan-o-waith i isafswm o £20,000 ar gyfer cyplau a rhieni sengl, a £13,400 ar gyfer oedolion sengl)
- diffygion yn sgil tynnu cymhorthdal ystafell sbâr (y cyfeirir ato fel y cap ystafell wely) neu o ganlyniad i gyfyngiadau budd-dal tai
- didyniadau an-ddibynnol mewn BT neu gyfraniadau costau tai o safbwynt CC gan nad ydynt yn ddibynnol
- Cyfyngiadau deddfwriaethol technegol eraill:

o cyfyngiadau swyddog rhent megis rhent cyfeirnod lleol neu gyfradd llety ar y cyd
o cyfyngiad 2 blentyn budd-dal y llywodraeth
o lleihad tapr incwm
o diddymu premiwm y teulu

- unrhyw newidiadau polisi eraill sy'n cyfyngu swm taladwy BT neu CC

Gellir dyfarnu TTD ar gyfer blaendal rhent neu rent ymlaen llaw ar gyfer eiddo nad yw'r un sy'n hawlio wedi symud iddo eto os oes ganddo eisoes hawl ar BT neu CC yn eu cartref presennol, a hefyd taliadau ar gyfer costau tai yn y gorffennol (gan gynnwys ôl-ddyledion rhent). Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am feini prawf ac ystyriaethau yn Llawlyfr Canllawiau Taliadau Dewisol yr Adran Gwaith a Phensiynau (https://www.gov.uk/government/publications/discretionary-housing-payments-guidance-manual).

**AGPHh ac arian TTD ar gyfer 2021-2022**

Darperir y cyllid cyfyngedig o arian gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) ac ers 2011-12, mae cyllid ychwanegol ar gael i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth drosiannol i hawlwyr wrth iddynt addasu i Ddiwygiadau Lles BT.

Cyfanswm y gronfa TTD ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2021-22 yw £140 miliwn. Clustnododd yr AGPh £100m ar ddechrau'r flwyddyn gyda £269,861 yn cael ei glustnodi'n wreiddiol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ar ddiwedd mis Medi, dyrannodd yr AGPh y cyllid neilltuedig o £40 miliwn – ar y pwynt hwn, dyrannwyd £94,596 arall i Ben-y-bont gan ddod â chyfanswm dyraniad yr AGPh ar gyfer Pen-y-bont i £364,457.

Mae rheoliadau cyllido'r DHP yn darparu terfyn uchaf cyffredinol ar gyfer gwariant TTD i 2.5 x dyraniad yr AGPh; byddai'n rhaid i'r gwariant ychwanegol dros ddyraniad yr AGPh gael ei ariannu gan yr awdurdod lleol. Yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, y terfyn uchaf ar gyfer 2021-22 yw £911,143. Ni chaiff unrhyw ddyraniad TTD nas defnyddiwyd ei hawlio gan yr AGPh, na'i ddychwelyd iddo (h.y. ni all yr awdurdod lleol gadw unrhyw arian sydd heb ei wario).

Gwariant DHP ar 12 Tachwedd 2021:

Blwyddyn - 2021
Cyfanswm Cronfa AGPh - £364,457
Net a Dalwyd hyd yn hyn - £234,878
Clustnodwyd* - £43,025
Heb glustnodi - £86,554

*Mae cyllid sydd wedi'i glustnodi'n cynnwys dyfarniadau cyfandaliad i'w talu ar unwaith, a dyfarniadau parhaus yn y dyfodol i'w talu yn unol â chylch rhentu'r un sy'n hawlio.

Nifer y penderfyniadau TTD a wnaed i'r 12 uned 2021 yw 481, gan arwain at 354 o ddyfarniadau. Mae 140 o'r rhain wedi bod yn daliadau cyfandaliad (costau symud / rhent ymlaen llaw / adneuon / ôl-ddyledion), ac mae 214 ar gyfer dyfarniadau parhaus.

**Cyllid TTD Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2022**

Ym mis Mawrth 2021, gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddatganiad yn cyhoeddi cyllid pellach o £4.1m yn ychwanegol at y gronfa TTD er mwyn helpu awdurdodau lleol i gefnogi tenantiaid oedd ar ôl â'u rhent (https://gov.wales/written-statement-extension-tenancy-saver-loan-scheme-and-additional-funding-discretionary-housing). Darparwyd y cyllid ledled Cymru fel arf atal digartrefedd i fynd i'r afael â diffyg mewn rhent yng nghyd-destun y pandemig.

Y dyraniad ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod 2021-22 yw £165,988, a fydd yn cael ei ddefnyddio unwaith y bydd y dyraniad ADG wedi'i wario'n llawn (mae'r swm ychwanegol yma'n disgyn o fewn yr uchafswm). Bydd unrhyw wariant dros ddyraniad yr AGPh hyd at £165,988 yn cael ei hawlio'n ôl gan LlC; bydd unrhyw wariant dros y swm hwn yn cael ei dalu o gyllidebau presennol CBSP.

**Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig yn y TTD**

Mae rhai elfennau o rent hawlydd y mae rheoliadau BT a CC yn eu heithrio felly ni ellir eu cynnwys fel 'costau tai' at ddibenion TTD. Ymysg yr elfennau sydd wedi'u gwahardd mae:

- taliadau gwasanaeth anghymwys, megis gwresogi, goleuo, dŵr poeth, neu daliadau ar gyfer cyfraddau dŵr, neu ddarparu a chostau nwyddau gwyn
- codiadau mewn rhent yn sgil ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus
- sancsiynau a gostyngiadau penodol mewn budd-dal
- pan fydd taliadau BT yn cael eu hatal
- llai o BT oherwydd ad-daliad.

Ymhellach, ni ellir defnyddio TTD i wneud iawn am ddiffygion rhwng atebolrwydd treth y cyngor a dyfarniadau Lleihau Treth Gyngor.

**Hyd taliadau**

Nid oes terfyn amser diffiniedig ar gyfer gwneud taliadau TTD. Efallai y bydd dyfarniad â therfyn amser yn briodol pan fydd newid mewn amgylchiadau sydd ar ddod yn arwain at gynnydd mewn budd-dal (e.e. genedigaeth plentyn sy'n arwain at ddyfarniad BT uwch). Efallai y bydd dyfarniad tymor byr hefyd yn briodol er mwyn rhoi amser i hawlydd gael trefn ar ei amgylchiadau ariannol neu dai, yn enwedig os yw'n ceisio dod o hyd i lety arall neu swydd newydd.

I'r gwrthwyneb, gall taliad hir dymor fod yn fwy priodol yn achos hawlydd lle mae ei amgylchiadau'n annhebygol o newid a bydd dyfarniad tymor byr yn achosi trallod gormodol iddynt.

**Cwestiwn ychwanegol gan y Cynghorydd Tim Thomas**

Yn ddi-os, wrth edrych ar y data perthnasol, bydd TTD yn dod yn fwy a mwy poblogaidd oherwydd rhesymau fel diwedd Ffyrlo a Chredyd Cynhwysol ac oherwydd Diwygio Lles. Gyda hyn mewn golwg, a ydych wedi ystyried dyfeisio Strategaeth Gyfathrebu, er mwyn

i rentwyr cyhoeddus a phreifat sy'n ei chael hi'n anodd o safbwynt ariannol, gael eu hysbysu'n llawn bod TTD ar gael ac o'r meini prawf sy'n ofynnol i fod yn gymwys ar gyfer hyn.

**Ymateb**

Ceisiwn fanteisio'n llawn ar unrhyw gyfle sydd gennym i hyrwyddo'r gwasanaethau ayb y mae'r Cyngor yn eu darparu i'r cyhoedd ac yn achos TTD, rydym yn ymwneud â sefydliadau cynghori am ddim, megis Biwro Cyngor ar Bopeth sydd, yn ei dro, sy'n cynnig cyngor rhad ac am ddim ci breswylwyr sy'n wynebu anawsterau, yn cynnwys problemau ariannol. Byddaf hefyd yn trefnu bod datganiad i'r wasg ar gael yn ymwneud â TTD a'r buddion sydd ar gael.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Ross-Penhale Thomas i'r Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Pa asesiad y mae'r Aelod Cabinet wedi'i wneud o safbwynt argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr?

**Ymateb**

**Tai Fforddiadwy**

Dyma fater amlhaenog ag iddo lawer o gydrannau, sy'n cynnwys argaeledd tir, cyfleoedd datblygu a gweithio mewn partneriaeth, a rôl y sector preifat wrth ddarparu llety ar rent, a gall amrywiadau yn y farchnad dai ddylanwadu ar bob un ohonynt.

Mae polisïau penodol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLL) gyda chefnogaeth Canllawiau Cynllunio Atodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob datblygiad newydd o 5 tŷ neu fwy gyfrannu at dai fforddiadwy naill ai fel rhan o'r cynllun neu drwy gyfraniad oddi ar y safle. Gall hyn gynnwys darpariaeth uniongyrchol neu gymhorthdal. Mae timau Cynllunio a Thai yn gweithio'n agos ar bob cais datblygu i gytuno ar union gwmpas a natur y cyfraniad a'r modd y caiff ei gymhwyso. Yna gellir sicrhau hyn drwy gytundebau Adran 106.

Mae yna lawer o strategaethau a chynlluniau sy'n cefnogi'r asesiad o anghenion tai fforddiadwy – Y Cynllun Datblygu Lleol, Asesiad Marchnad Tai Lleol, Asesiad Sipsiwn a Theithwyr. Ategir y rhain gan y gofrestr ailgartrefu sy'n cofnodi'r galw a'r angen am dai cymdeithasol ledled y Sir sydd yn ei dro'n cefnogi cyflwyno'r rhaglen ddatblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) sydd wedi gweld cynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac am y 2 flynedd nesaf, i £10m Grant Tai Cymdeithasol y flwyddyn. Mae trafodaethau gyda'r LCC a Llywodraeth Cymru'n digwydd yn rheolaidd i gefnogi datblygiad ceisiadau. Gan mai dim ond yn rhannol y mae'r grant yn ariannu bob datblygiad, bydd cyllid preifat ychwanegol yn cael ei ddenu ar gyfer y prosiectau hyn fesul cynllun gan y LCC. Mae ein Strategaeth Ddigartrefedd hefyd yn darparu gwybodaeth am anghenion, ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar ddiweddaru'r wybodaeth hon trwy Adolygiad Digartrefedd a Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a fydd yn nodi anghenion tai a chymorth ar gyfer y dyfodol.

Ymysg y LCC sy'n gweithio o fewn y Sir mae Wales and West, Hafod, Linc (Cymru) United Welsh, Coastal a V2C, sy'n meddu ar y stoc fwyaf o fewn y Fwrdeistref. Ceir trafodaethau cyson yn ymwneud â chynlluniau i ffurfio rhaglen ddatblygu'r LCC er mwyn cyflenwi'r gofyn am dai ledled y Sir. Rhaid i ddatblygiadau tai cymdeithasol gydymffurfio â chaniatâd cynllunio, canllawiau costau ariannol LlC a safonau ansawdd cyn eu cefnogi

ar gyfer derbyn grant. Ni chaiff cyfleoedd eraill eu diystyru o reidrwydd ond mae gofyn iddynt ddilyn y prosesau perthnasol a derbyn caniatâd cyn iddynt gael eu hystyried.

Ymhellach, fel rhan o Ymateb Covid-19 y Cyngor Ymateb llwyddwyd i ddenu grant cyllid cyfalaf ychwanegol o £2,508,231 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau digartrefedd ar gyfer cyfuniad o adeiladu newydd, adnewyddu a chaffael eiddo. Pan gynhwysir cyllid preifat, mae'n debygol y bydd cyfanswm y gwariant oddeutu £6,783,689.

**Ansawdd da**
O ystyried ôl-adeiladu, mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio ar y Cyd yn gweithio gyda Landlordiaid yn y Sector Rhentu Preifat i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hymrwymiadau wrth rentu eiddo. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Rhentu Cymru sy'n gweithredu Cynllun Cofrestru a Thrwyddedu ar gyfer Landlordiaid, ac fel rhan o'r Landlord ac asiantau Rheoli mae'n ofynnol i gwblhau Hyfforddiant Gorfodol. O fethu cydymffurfio, gallwn ddefnyddio ein Pwerau Gorfodi o dan Ddeddf Tai 2004 i sicrhau gwelliannau i eiddo. Yn ogystal, rydym hefyd yn gweithio gyda pherchnogion Empty Properties ac yn eu cynghori ar fentrau sydd ar gael iddynt ddod â'u heiddo yn ôl i ddefnydd a'u gwneud ar gael i'w rhentu.

**Cwestiwn ychwanegol oddi wrth y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas**

Gennym ni mae rhai o'r stoc dai hynaf a mwyaf annigonol yn Ewrop ac mae Shelter Cymru, er enghraifft, yn ymwybodol o rai achosion ar hyn o bryd lle mae rhent tenantiaid wedi dyblu dros nos o £700 i £1,400 y mis, gyda chwyddiant yn codi'n gynt na chyflogau. Beth arall y gellir ei wneud fel awdurdod lleol i wella'r sector rhentu preifat sy'n gwasanaethu tenantiaid a landlordiaid ac yn hwyluso'r argyfwng tai, er mwyn sicrhau bod gan denantiaid ddiogelwch o ran llety tymor hir. Mae tenantiaeth tymor hir yn rhoi tawelwch meddwl i'r tenant a'r landlord.

**Ymateb**

Rydym yn gweithio ar y cyd â Cartrefi Hafod i hybu cynlluniau rhentu drwy gyfrwng landlord preifat. Rwy'n byw mewn cymuned lle mae landlordiaid llety preifant yn rhentu nifer sylweddol o dai yn ardal Dyffryn Ogwr. Ar sail hynny, mae tystiolaeth nad yw'r awdurdod yn cysylltu'n effeithio â landlordiaid preifat lle mae'r rhain ar gael, sy'n darparu tai rhent mewn ardaloedd fel f'un i, am mai prin iawn yw'r tai eraill sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd ar incwm isel neu fach iawn. Yn nhermau tai fforddiadwy, rwyf newydd dderbyn llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n cadarnhau eu bod yn lansio cynllun i helpu gwneud iawn am unrhyw ddiffygion hyfyw. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i'r ddarpariaeth o 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod tymor y Senedd ac o fewn cyfyngiadau'r cynllun, gall awdurdodau lleol wneud cais am hyd at 50% tuag at leihau'r diffygion hyfyw. Rwy'n hapus i drafod y mater hwn ymhellach gyda'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod hwn.

**Ail gwestiwn ychwanegol oddi wrth y Cynghorydd Paul Davies**

All yr Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant egluro sut fod nifer o dai fforddiadwy newydd wedi'u hadeiladu o fewn y Fwrdeistref Sirol yn ystod oes y weinyddiaeth a chyda grant tai cymdeithasol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, faint o gyllid ychwanegol y mae disgwyl i CBSP ei dderbyn.

**Ymateb**

O safbwynt yr elfen ariannu, mae LIC wedi cynyddu'r swm o £3m a ddyrannwyd i £10m ers 2019. Rwy'n credu bod hynny'n gynnydd sylweddol ac rwy'n ddiolchgar i LIC am hyn.

O safbwynt y dyfodol, mae'n anodd dweud; fodd bynnag, rhagwelir 432 o dai dros y 3 blynedd nesaf. Ond mae hyn yn dibynnu ar ffactorau megis y farchnad ar y pryd ac a oes gan ein LCC yr adnoddau i adeiladu’r nifer amcangyfredig hwn o anheddau o fewn y cyfnod penodedig.

606. MATERION BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:02